

[illegible]

CANLLAWIAU GUIDANCE

CYMRAEG AR DRAWS YR YSGOL

WELSH ACROSS THE SCHOOL



© Testun: Bethan Clement, 2014

© Delweddau: Canolfan Peniarth, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, 2014

Cyhoeddwyd yn 2014 gan Ganolfan Peniarth.

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn datgan ei hawl moesol dan Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988 i gael ei hadnabod fel awdur a dylunydd y gwaith yn ôl eu trefn.

Cedwir pob hawl gan yr awduron unigol. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng electronig, electrostatig, tâp magnetig, mecanyddol, llungopïo, recordio, nac fel arall, heb ganiatâd yn ysgrifenedig ymlaen llaw gan y cyhoeddwyr uchod.

Cynnwys

1	Cyflwyniad
3	Ynganu a phwyslais
5	Yr wyddor Gymraeg
6	O gwmpas yr ysgol
7	Dechrau gwers
7	Nod y wers
8	Gorffen gwers
8	Y sgiliau allweddol
9	Cwestiynau defnyddiol
10	Ymateb i ddysgwyr
11	Gorchmynion
13	Meini prawf llwyddiant
14	Y treigladau
15	Y cardiau
17	• Addysg bersonol a chymdeithasol
21	• Addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang
29	• Addysg gorfforol
35	• Addysg grefyddol
43	• Celf
51	• Cerddoriaeth
59	• Cymraeg/Cymraeg ail iaith
63	• Daearyddiaeth
71	• Drama
79	• Dylunio a thechnoleg
87	• Gwyddoniaeth
91	• Hanes
99	• Llythrennedd triphlyg
103	• Mathemateg
111	• Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

Contents

2	Introduction
4	Pronunciation and intonation
5	The Welsh alphabet
6	Around the school
7	Starting a lesson
7	The aim of the lesson
8	Ending a lesson
8	The key skills
9	Useful questions
10	Responding to learners
11	Commands
13	Success criteria
14	The mutations
15	The cards
17	• Personal and social education
21	• Education for sustainable development and global citizenship
29	• Physical education
35	• Religious education
43	• Art
51	• Music
59	• Welsh/Welsh second language
63	• Geography
71	• Drama
79	• Design and technology
87	• Science
91	• History
99	• Triple literacy
103	• Mathematics
111	• Information and communication technology

Cyflwyniad

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys:

- 25 o gardiau trawsgwricwlaidd A4 mewn lliw llawn
- taflen A3 sy'n cynnwys geirfa allweddol i athrawon
- cardiau bach ar fachyn sy'n cynnwys yr ymadroddion sy'n cael eu defnyddio amlaf yn y dosbarth a thudalennau gwag i athrawon gael ychwanegu eu hoff ymadroddion
- ffeiliau sain o'r eirfa a'r ymadroddion allweddol
- canllawiau a syniadau ar gyfer cyflwyno'r gweithgareddau.

Nod y pecyn yw cynnal a chefnogi athrawon wrth iddyn nhw gyflwyno'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm mewn ysgolion lle'r addysgir y Gymraeg fel ail iaith. Mae syniadau ac enghreifftiau o weithgareddau posibl yma. Gall athrawon addasu'r gweithgareddau, ychwanegu atynt neu ddileu i ateb eu hanghenion nhw. Mae rhai o'r gweithgareddau'n cynnig cyfleoedd i adrannau gydweithio ar thema ac mae digon o gyfleoedd i ddatblygu hyn ymhellach.

Mae ynganu a goslefu'n gywir yn hollbwysig. Dyma pam mae ffeiliau sain o'r eirfa a'r ymadroddion allweddol wedi eu cynnwys. Awgrymir bod athrawon yn gwrando'n ofalus ar y ffeiliau sain wrth baratoi'r gwersi gan ailadrodd yn ofalus ar ôl y llais ar y ffeil.

Mae'r canllawiau hefyd yn cynnwys adran gyffredinol sy'n berthnasol i bob pwnc. Yma, ceir rhestr o ymadroddion defnyddiol ar gyfer y dosbarth wedi eu grwpio mewn adrannau hylaw fel cyfarchion, gorchmynion, gosod nodau gwersi ac ati. Byddai cael cytundeb holl athrawon yr ysgol i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer y gweithgareddau hyn yn help i addysgu'r termau i'r dysgwyr a magu hyder yn eu gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg.

Wrth reswm, nid oes disgwyl i athrawon gyflawni'r cyfan a awgrymir yma'n syth bin. Yn hytrach, gellid cyflwyno'r Gymraeg yn raddol. Efallai nad yw'r athrawon na'r dysgwyr yn barod i ymgymryd â gwersi drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd ond dylid anelu at ddefnyddio mwy a mwy o'r Gymraeg yn y tymor hir. Yn y cyfamser dylai athrawon geisio gwneud defnydd o rai adrannau o'r pecyn hwn, e.e. gosod nodau'r wers neu bennu meini prawf llwyddiant gan gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg wrth iddyn nhw a'r dysgwyr fagu hyder. Bydd ymateb y dysgwyr hefyd yn amrywio. Bydd rhai yn gwneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg nag eraill. Bydd rhai yn dewis gwneud nodiadau neu gynllunio tasg yn y Gymraeg ond ni fydd yr hyder na'r gallu gan eraill i wneud hyn ar y dechrau. Bydd rhaid derbyn felly bod rhai dysgwyr yn mynd i ymateb yn y Saesneg neu mewn iaith arall ar adegau.

Introduction

This pack contains:

- 25 cross-curricular cards in full colour
- an A3 sheet that includes key vocabulary for teachers
- small cards on a key ring with the phrases used most often in class and empty pages at the end so that teachers can add their own favourite phrases
- audio files of key vocabulary and phrases
- guidance notes with ideas for delivering the activities.

The pack aims to support teachers in delivering Welsh across the curriculum in schools where Welsh is taught as a second language. There are ideas and examples of possible activities. Teachers can adapt the activities, add or delete to meet their needs. Some of the activities offer opportunities to collaborate across departments and there are plenty of opportunities to develop this further.

Correct pronunciation and intonation are crucial. This is why audio files of vocabulary and key phrases are included. It is suggested that teachers listen carefully to the audio files when preparing lessons by carefully repeating after the voice on the file.

The guidance also includes a general section that applies to all subjects. Lists of useful phrases for the class, e.g. greetings, commands, target setting and so on, are grouped in manageable sections. Whole school agreement to use Welsh for these activities would help to teach the terms to the learners so that they gain confidence in their ability to communicate in Welsh.

Of course, teachers are not expected to deliver everything that is suggested here immediately. Instead, Welsh could be introduced gradually. Learners or teachers may not be ready to learn and teach through the medium of Welsh at the moment but should aim for that in the long term, making more and more use of Welsh as they go along. In the meantime teachers should try to make use of some sections of this pack, e.g. to set lesson aims or success criteria, increasing the use of Welsh with learners as they gain confidence. The response of the learners will also vary. Some will make more use of Welsh than others. Some will choose to plan or make notes in Welsh but others may not have the confidence or ability to do this at the beginning. It is inevitable that some learners will respond in English or another language at times.

Ynganu a phwyslais

Mae'r **pwyslais** fel arfer yn disgyn ar y sillaf olaf ond un yn y Gymraeg. Uned sain yw sillaf. Os ydych yn ansicr, ceisiwch '**siar-ad fel Da-lec**' (5 sillaf). Dylai hyn eich helpu. Mae rhoi pwyslais ar sillaf yn golygu ymestyn y sain gyda mwy o bwyslais yn y llais.

Er enghraifft, byddai pobl gydag acen Gymreig yn ynganu'r cyfenw Meredith fel Mer-**ed**-ith, ac mae'r sain olaf ond un 'ed' yn cael ei bwysleisio. Byddai pobl ag acen Saesneg yn tueddu rhoi pwyslais cyfartal ar bob un o'r tair sillaf – Mer-ed-ith.

Os yw'r pwyslais yn disgyn ar y sillaf olaf mewn gair Cymraeg mae fel arfer yn cael ei ddangos gydag acen, e.e. caraf**án**. Dim ond ychydig eiriau fel hyn sy yn y Gymraeg.

Ceisiwch ddweud y geiriau hyn: – **canol** – can**ol**fan. Mae'r pwyslais yn symud bob tro y bydd uned sain neu sillaf yn cael ei hychwanegu.

Ti a chi You

Mae dwy ffordd o ddweud 'you' yn Gymraeg – '**ti**' a '**chi**'.

Mae '**chi**' yn cael ei ddefnyddio wrth siarad â grŵp o bobl (lluosog), rhywun nad ydych yn ei adnabod yn dda neu rywun yr ydych am ddangos parch tuag ato/ati. Rydym hefyd yn defnyddio '**chi**' gyda phobl sy'n hŷn na ni.

Mae '**ti**' yn cael ei ddefnyddio wrth siarad â ffrind, neu blentyn, neu â rhywun yr ydych yn gyfarwydd iawn ag ef/hi, e.e.

Pwy ydych chi? Y pennaeth ydw i.

Pwy wyt ti? Siân ydw i.

Pronunciation and intonation

The **emphasis** usually falls on the last syllable but one in Welsh words. A syllable is a unit of sound. If you are unsure, try '**talk-ing like a Da-lek**' (6 syllables) and this should help you. Putting stress on a syllable means lengthening the sound with more emphasis in the voice.

For example, people with a Welsh accent would pronounce the surname Meredith as Mer-**ed**-ith, with the stress on the last sound but one, 'ed'. People with an English accent would tend to put equal emphasis on all three syllables – Mer-ed-ith.

If the stress falls on the last syllable of a Welsh word it is usually marked by an accent e.g. caraf**án**. There are very few words like this in Welsh.

Try saying these words: – **canol** – can**ol**fan. The stress moves on each time a unit of sound or syllable is added.

Ti a chi You

There are two ways of saying 'you' in Welsh – '**ti**' and '**chi**'.

'**Chi**' is used when speaking to a group of people (plural), to someone you don't know very well or someone to whom you want to show respect. We also use '**chi**' with people who are older than us.

'**Ti**' is used when speaking to a friend, or a child, or to someone with whom you are very familiar, e.g.

Pwy ydych chi? Y pennaeth ydw i.

Pwy wyt ti? Siân ydw i.

Yr wyddor Gymraeg

The Welsh alphabet

Llythyren	Cymraeg	English
*a	tân/ <u>tan</u>	as in <u>hard</u> / <u>bat</u>
b	<u>b</u> ola	as in <u>bat</u>
c	<u>c</u> ar	as in <u>car</u> , never as <u>C</u> yril
ch	co <u>ch</u>	as in Scottish <u>loch</u>
d	<u>d</u> ant	as in <u>dentist</u>
dd	<u>dd</u> oe	as in <u>then</u> , never as <u>th</u> ing
*e	he <u>n</u> /pe <u>r</u> t	long open e sound/ <u>then</u>
f	fi/ <u>a</u> fa <u>l</u>	as in <u>vast</u> , never as <u>off</u>
ff	<u>ff</u> ôn	as in <u>ph</u> one
g	ga <u>n</u>	as in <u>gut</u> , never as <u>G</u> eorge
ng	dr <u>in</u> go	as in <u>blin</u> g
h	<u>h</u> apus	as in <u>h</u> appy
*i	ci/ <u>b</u> i <u>n</u>	as in <u>keep</u> / <u>b</u> i <u>n</u> , never as <u>sl</u> i <u>m</u> e
j	ga <u>r</u> ej	as in <u>ja</u> m
l	<u>l</u> an	as in <u>la</u> st
ll	<u>ll</u> awn	no English equivalent
m	<u>m</u> ap	as in <u>ma</u> p
n	<u>n</u> awr	as in <u>n</u> ip
*o	do/ <u>ll</u> o <u>n</u>	as in <u>ph</u> one/ <u>po</u> t
p	pe <u>th</u>	as in <u>po</u> t
ph	<u>ph</u> en	as in <u>ph</u> ysics
r	ca <u>r</u>	rolled more than English
rh	<u>rh</u> if	breathy 'r', unvoiced
s	sga <u>rr</u> ff	as in <u>se</u> t, not <u>is</u>
t	<u>t</u> i	as in <u>to</u> p
th	be <u>th</u>	as in <u>th</u> ing, never as <u>th</u> en
*u	<u>u</u> n/ <u>t</u> u <u>n</u>	as in <u>be</u> en/ <u>kiss</u> never as in <u>ru</u> mp
*w	d <u>w</u> r/ <u>j</u> w <u>g</u>	as in <u>do</u> / <u>fu</u> ll
*y	d <u>y</u> n/ <u>c</u> yn/ <u>y</u> n	as in <u>de</u> an/ <u>ti</u> n/ <u>du</u> mp

*Llafariaid Vowels

In the 'Welsh' column, examples of words with long and short vowel sounds are given.

The Welsh vowels are: **a, e, i, o, u, w, y**

O gwmpas yr ysgol

Around the school

Cymraeg	English
buarth	yard
cae chwarae	playing field
campfa	gym
cegin	kitchen
coridor	corridor
cymorth cyntaf	first aid
cyntedd	foyer
derbynfa	reception
dim mynediad	no entry
dirprwy bennaeth	deputy head
ffreutur	canteen
gofalwr/wyr	caretaker/s
iard	yard
labordy	laboratory
lolfa	lounge
llyfrgell	library
mynedfa	entrance
neuadd	hall
pennaeth	head(teacher)
pennaeth blwyddyn 7	head of year 7
preifat	private
staff yn unig	staff only
stordy	storeroom
swyddfa	office
toiledau	toilets
ysgrifennydd	secretary (m)
ysgrifenyddes	secretary (f)
ystafell aros	waiting room
ystafell gyfrifiaduron	computer room
ystafell lungopïo	photocopying room
ystafell newid	changing room
ystafell staff	staffroom
ystafell y nyrs	nurse's room

Dechrau gwers**Starting a lesson**

Cymraeg	English
Edrychwch ar y bwrdd gwyn.	<i>Look at the white board.</i>
Agorwch eich llyfrau.	<i>Open your books.</i>
Ewch i dudalen ...	<i>Go to page ...</i>
Ysgrifennwch y dyddiad.	<i>Write the date.</i>
Beth ydy'r dyddiad heddiw?	<i>What is the date today?</i>
Ewch i'ch grwpiau.	<i>Go to your groups.</i>

Nod y wers**Lesson aim**

Cymraeg	English
Nod y wers heddiw ydy ...	<i>The aim of today's lesson is ...</i>
Yn y wers yma rydyn ni'n mynd i ymarfer ...	<i>In this lesson, we're going to practice ...</i>
Heddiw rydyn ni'n mynd i ...	<i>Today, we are going to ...</i>
Heddiw rydyn ni'n mynd i ddysgu am ...	<i>Today, we are going to learn about ...</i>
Y bore 'ma rydw i'n mynd i siarad am ...	<i>This morning I'm going to talk about ...</i>
Y bore 'ma rydw i eisiau i chi feddwl am ...	<i>This morning I want you to think about ...</i>
Y prynhawn 'ma rydych chi'n mynd i ...	<i>This afternoon you are going to ...</i>
Yn y wers yma, byddwn ni'n adolygu ...	<i>In this lesson, we'll be revising ...</i>
Heddiw byddwn ni'n defnyddio'r sgiliau yma.	<i>Today we will be using these skills.</i>

Diwedd y wers**The end of the lesson**

Cymraeg	English
Ydych chi wedi mwynhau ...?	<i>Have you enjoyed ...?</i>
Beth fwynheuoich chi heddiw? Pam?	<i>What did you enjoy today? Why?</i>
Ydych chi wedi dysgu rhywbeth newydd?	<i>Have you learnt something new?</i>
Pa sgiliau ydych chi wedi eu defnyddio heddiw?	<i>What skills have you used today?</i>
Beth ydych chi wedi ei ddysgu?	<i>What have you learnt?</i>
Yn y wers nesaf, byddwn ni'n ...	<i>In the next lesson, we will ...</i>
Y gwaith cartref heno ydy ...	<i>Tonight's homework is ...</i>

Y sgiliau allweddol**The key skills**

Cymraeg	English
Y sgiliau allweddol yn y wers yma ydy ...	<i>The key skills in this lesson are ...</i>
Addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh)	<i>Personal and social education (PSE)</i>
Cyfathrebu	<i>Communication</i>
Meddwl	<i>Thinking</i>
Rhif	<i>Number</i>
Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)	<i>Information and communication technology (ICT)</i>
Y Cwricwlwm Cymreig	<i>Curriculum Cymreig</i>
Beth oedd y sgiliau allweddol yn y wers yma?	<i>What were the key skills in this lesson?</i>

Cwestiynau defnyddiol

Useful questions

Cymraeg	English
Beth sy'n bod?	<i>What is the matter?</i>
Beth yw/ydy hwn?	<i>What is this?</i>
Beth yw/ydy'r rhain?	<i>What are these?</i>
Ble mae ...?	<i>Where is ...?</i>
Ble mae dy waith cartref di?	<i>Where is your homework? (sing.)</i>
Ble mae'ch gwaith cartref chi?	<i>Where is your homework? (pl.)</i>
Ble mae'r gwaith cartref?	<i>Where's the homework?</i>
Ga i weld dy waith di?	<i>Can I see your work? (sing.)</i>
Ga i weld eich gwaith chi?	<i>Can I see your work? (pl.)</i>
Pwy sy wedi anghofio'r gwaith cartref?	<i>Who's forgotten the homework?</i>
Pwy sy eisiau ...?	<i>Who wants ...?</i>
Pwy sy'n cofio?	<i>Who remembers?</i>
Pwy sy'n gwybod ...?	<i>Who knows ...?</i>
Wnei di roi'r llyfr ar y ddesg?	<i>Will you put the book on the desk? (sing.)</i>
Wnewch chi ...?	<i>Will you ...? (pl.)</i>
Wyt ti wedi gorffen?	<i>Have you finished? (sing.)</i>
Wyt ti'n barod?	<i>Are you ready? (sing.)</i>
Ydych chi wedi gorffen?	<i>Have you finished? (pl.)</i>
Ydych chi'n barod?	<i>Are you ready? (pl.)</i>
Beth ydych chi'n ei wybod am ...?	<i>What do you know about ...? (pl.)</i>
Ble mae'n dweud hynny?	<i>Where does it say that?</i>
Ydych chi'n gallu cofio?	<i>Can you remember? (pl.)</i>
Pa fath o ...?	<i>What sort of ...?</i>
Beth ydych chi'n ei feddwl?	<i>What do you think? (pl.)</i>
Pam?	<i>Why?</i>
Ydych chi'n gallu rhoi rheswm?	<i>Can you give a reason? (pl.)</i>
Ydych chi'n gallu dweud pam?	<i>Can you say why? (pl.)</i>
Beth ydych chi'n mynd i wneud nesa?	<i>What are you going to do next? (pl.)</i>
Sut ydych chi'n gallu dangos beth sy'n debyg ac yn wahanol?	<i>How can you show what is similar and different? (pl.)</i>
Pa dystiolaeth sy gyda chi? (SW)	<i>What evidence do you have? (pl.)</i>
Pa dystiolaeth sy gennych chi? (NW)	<i>What evidence do you have? (pl.)</i>
Beth ydy'ch barn chi?	<i>What's your opinion? (pl.)</i>
Sut rydych chi'n mynd i ...?	<i>How are you going to ...? (pl.)</i>

NW North Wales
SW South Wales

Ymateb i ddysgwyr

Responding to learners

Cymraeg	English
Gorffennwch y gwaith.	<i>Finish the work. (pl.)</i>
Ysgrifennwch mewn brawddegau.	<i>Write in sentences. (pl.)</i>
Gwylwch yr atalnodi.	<i>Watch the punctuation. (pl.)</i>
Gwylia'r atalnodi.	<i>Watch the punctuation. (sing.)</i>
Gwylwch y sillafu.	<i>Watch the spelling. (pl.)</i>
Gwylia'r sillafu.	<i>Watch the spelling. (sing.)</i>
Tanlinellwch y teitl.	<i>Underline the title. (pl.)</i>
Tanlinella'r teitl.	<i>Underline the title. (sing.)</i>
Ysgrifennwch baragraff arall.	<i>Write another paragraph. (pl.)</i>
Ysgrifenna baragraff arall.	<i>Write another paragraph. (sing.)</i>
Eitha da.	<i>Quite good.</i>
Ardderchog!	<i>Excellent!</i>
Bendigedig!	<i>Wonderful!</i>
Llongyfarchiadau!	<i>Congratulations!</i>
Rhagorol!	<i>Brilliant!</i>
Gwych!	<i>Great!</i>
Gwaith gwych.	<i>Great work.</i>
Gwaith taclus.	<i>Neat work.</i>
Gwell o lawer.	<i>Much better.</i>
Ddim yn ddrwg.	<i>Not bad.</i>
Rydych chi'n gweithio'n dda heddiw.	<i>You're working well today. (pl.)</i>
Dw i wedi mwynhau.	<i>I've enjoyed.</i>
Da iawn.	<i>Very good/Well done.</i>
Triia eto.	<i>Try again. (sing.)</i>
Triwch eto.	<i>Try again. (pl.)</i>
Syniad da.	<i>Good idea.</i>
Pam wyt ti'n dweud hynny?	<i>Why do you say that? (sing.)</i>
Pam ydych chi'n dweud hynny?	<i>Why do you say that? (pl.)</i>
Rho reswm.	<i>Give a reason. (sing.)</i>
Rhowch resymau.	<i>Give reasons. (pl.)</i>
Esbonia pam.	<i>Explain why. (sing.)</i>
Esboniwch pam.	<i>Explain why. (pl.)</i>

Gorchmynion

Commands

Dyma'r gorchmynion lluosog. Defnyddiwch nhw gyda'r dosbarth cyfan neu grwpiau o ddysgwyr.

Here are the plural commands. Use them with the whole class or with groups of learners.

Cymraeg	English
Brysiwch.	Hurry up.
Byddwch yn ofalus.	Be careful.
Cerddwch.	Walk.
Codwch yn dawel.	Get up quietly.
Dewch i mewn.	Come in.
Dewiswch ...	Choose ...
Edrychwch.	Look.
Eisteddwch.	Sit.
Ewch i nôl ...	Go and get ...
Ewch i ofyn i ...	Go and ask ...
Gofynnwch gwestiynau i'ch partner.	Ask your partner questions.
Gweithiwch mewn grŵp.	Work in a group.
Gweithiwch mewn paru.	Work in pairs.
Gwrandewch (ar ...)	Listen (to ...)
Rhaid i chi ...	You must ...
Rhowch ...	Put ...
Rhowch y lluniau mewn trefn.	Put the pictures in order.
Siaradwch am y cardiau.	Talk about the cards.

Dyma'r gorchmynion unigol. Defnyddiwch nhw pan rydych chi'n siarad gydag un dysgwr.

Here are the singular commands. Use them when you are speaking to one learner.

Cymraeg	English
Brysia.	Hurry up.
Bydda'n ofalus.	Be careful.
Cerdda.	Walk.
Cer i nôl ... (SW)	Go and get ...
Cer i ofyn i ... (SW)	Go and ask ...
Coda'n dawel.	Get up quietly.
Dere i mewn. (SW)	Come in.
Dewisa ...	Choose ...
Dos i nôl ... (NW)	Go and get ...
Dos i ofyn i ... (NW)	Go and ask ...
Edrycha.	Look.
Eistedda.	Sit.
Gofynna gwestiynau i dy bartner.	Ask your partner questions.
Gweithia mewn grŵp.	Work in a group.
Gweithia mewn pâr.	Work in a pair.
Gwranda (ar ...)	Listen (to ...)
Rhaid i ti ...	You must ...
Rho ...	Put ...
Rho'r lluniau mewn trefn.	Put the pictures in order.
Siarada am y cardiau.	Talk about the cards.
Tyrd i mewn. (NW)	Come in.

Meini prawf llwyddiant

Success criteria

Rhaid	<i>(I/you/he/she) must</i>	gofyn cwestiynau. siarad yn glir. llenwi'r bylchau.	<i>ask questions. speak clearly. fill in the blanks.</i>
Rydw i wedi	<i>I have</i>	gwrando.	<i>listened.</i>
Rwyt ti wedi	<i>You have (sing.)</i>	gwneud y syms.	<i>done the sums.</i>
Mae e wedi	<i>He has (SW)</i>	gorffen y map.	<i>finished the map.</i>
Mae o wedi	<i>He has (NW)</i>	ateb y cwestiwn.	<i>answered the question.</i>
Mae hi wedi	<i>She has</i>		
Rydych chi wedi	<i>You have (pl.)</i>		
Wyt ti wedi	<i>Have you (sing.)</i>	sillafu'n gywir?	<i>spelt correctly?</i>
Ydych chi wedi	<i>Have you (pl.)</i>		
Rwyt ti wedi	<i>You have</i>	rhoi rheswm.	<i>given a reason.</i>
Rydych chi wedi			
Mae John wedi	John has	defnyddio priflythyren, atalnod llawn a marc cwestiwn.	<i>used a capital letter, a full stop and a question mark.</i>
Tro nesaf rhaid ...	<i>Next time</i> <i>(I/you/he/she ...) must ...</i>	defnyddio geiriau newydd.	<i>use new words.</i>
Tro nesaf rhaid i ti ...	<i>Next time you must ...</i>	siarad yn uchel.	<i>speak loudly.</i>
Tro nesaf rhaid i chi ...			
Tro nesaf rhaid i Ann ...	<i>Next time, Ann must ...</i>	ateb dau gwestiwn.	<i>answer two questions.</i>
Tro nesaf, rydw i'n mynd i ...	<i>Next time, I'm going to ...</i>	wrando'n ofalus.	<i>listen carefully.</i>

Y treigladau

The mutations

Yn Gymraeg, weithiau bydd cytsain gyntaf gair yn newid. Treigladau ydy'r enw ar y newid hwn. Mae tri math gwahanol o dreigladau yn Gymraeg.

Sometimes in Welsh, the first consonant of a word will change. This change is called a mutation. There are three different types of mutations in Welsh.

Y treigladau The mutations			
Cysefin Original	Meddal Soft	Trwynol Nasal	Llaes Aspirate
p pensil <i>pencil</i>	b > dy b ensil <i>your pencil</i>	mh > fy mh ensil <i>my pencil</i>	ph > ei ph ensil <i>her pencil</i>
t trwyn <i>nose</i>	d > dy d rwyn <i>your nose</i>	nh > fy nh rwyn <i>my nose</i>	th > ei th rwyn <i>her nose</i>
c cap <i>cap</i>	g > dy g ap <i>your cap</i>	ngh > fy ngh ap <i>my cap</i>	ch > ei ch ap <i>her cap</i>
b brawd <i>brother</i>	f > dy f rawd <i>your brother</i>	m > fy m rawd <i>my brother</i>	
d desg <i>desk</i>	dd > dy dd esg <i>your desk</i>	n > fy n esg <i>my desk</i>	
g gardd <i>garden</i>	- > dy ardd <i>your garden</i>	ng > fy ng ardd <i>my garden</i>	
l llaw <i>hand</i>	l > dy l aw <i>your hand</i>		
m mam <i>mother</i>	f > dy f am <i>your mother</i>		
rh rhaw <i>spade</i>	r > dy r aw <i>your spade</i>		

Y cardiau *The cards*


[illegible][illegible]

Addysg bersonol a chymdeithasol

Diogelwch ar y we

Ymadroddion allweddol

Cymraeg	English
ffôn smart	smart phone
map meddwl	mind map
peryglus	dangerous
pwysig	important
taflen wybodaeth	information leaflet
Dylai e/hi	he/she should
Ddylai e/hi ddim	he/she shouldn't
Ddylai e/hi? Dylai/Na ddylai	Should he/she? Yes/No



English translation of the main points on the card

Internet safety

Step 1 – What should I do?

Modern technology is very useful but it should be used carefully. Look at the situations below. What do you think these people should do? Discuss with your partner. What's your advice to these people? Remember to give plenty of reasons every time.

- I've had an e-mail message. I have won £1000. I must phone a special number. What should I do?
- I have prepared a profile on a social website. Should I put my e-mail address there?
- I swim every Saturday. An on-line friend has asked me where the swimming pool is. What should I do?
- I want to use 'create an event' to tell people about my party on Saturday. Who should see the page?
- Ceri Jones wants to be a friend on a social website. I don't know Ceri. What should I do?
- I have made a holiday photo album to put on a social website. Who should see the photos?

Step 2 – The leaflet

You must prepare a leaflet to give advice on internet safety for 11 year old learners. In your group, discuss what you want to say. Make notes of the main points in a mind map below.

Nod y wers

Nod y wers ydy:

- trafod pwysigrwydd diogelwch ar y we
- codi ymwybyddiaeth o rai o'r peryglon
- trafod technoleg fodern yn Gymraeg
- paratoi taflen wybodaeth i ddysgwyr iau ar ddiogelwch ar y we.

Cyflwyniad

Adolygwch y termau y bydd y dysgwyr yn eu defnyddio. Rydych chi'n gallu gwneud hyn drwy ddefnyddio cardiau fflach neu drwy ofyn cwestiynau fel:

- Beth ydy *social website* yn Gymraeg?
- Beth ydy *modern technology* yn Gymraeg?

Cam 1

I wneud y gweithgaredd ar y cerdyn, mae'n rhaid i'r dysgwyr ystyried chwe sefyllfa wahanol ac yna roi cyngor. Dyma rai brawddegau a chwestiynau defnyddiol i chi:

- Dw i eisiau i chi ddarllen y sefyllfaoedd un ar y tro.
- Ydy'r sefyllfa yma'n beryglus? Pam?
- Beth ddylai'r person yma wneud?
- Ddylai e/hi ddweud ble mae'r pwll nofio?

Cam 2

Nesaf, rhaid i'r dysgwyr baratoi taflen wybodaeth i roi cyngor i ddysgwyr 11 oed. Cyn dechrau ysgrifennu, dylai'r dysgwyr gael cyfle i baratoi mewn grŵp a gwneud nodiadau mewn map meddwl. Dyma rai brawddegau a chwestiynau defnyddiol i chi:

- Beth sy'n gwneud taflen wybodaeth dda?
- Beth ydych chi'n mynd i ddweud ar y daflen?
- Ydych chi'n mynd i roi lluniau ar y daflen? Pa luniau?
- Oes angen graffeg?
- Ydych chi'n mynd i ysgrifennu am wefannau cymdeithasol?
- Ydych chi'n mynd i ddweud rhywbeth am ffônau smart?

Wedyn rhwch gyfle i'r dysgwyr baratoi eu taflenni.

Ar ddiwedd y wers, efallai y byddwch chi am ofyn i'r dysgwyr edrych ar daflenni ei gilydd. Dylent werthuso eu gwaith drwy gyfeirio yn ôl at yr hyn sy'n gwneud taflen wybodaeth dda. Beth am ofyn iddyn nhw beth fydden nhw'n gwneud yn wahanol y tro nesaf?

Cofiwch gloi'r wers yn briodol.

The aim of the lesson

The aim of the lesson is to:

- discuss the importance of internet safety
- raise awareness of some of the dangers
- discuss modern technology in Welsh
- prepare an information sheet for younger learners on internet safety.

Introduction

Revise the terms that the learners will be using. You can do this by using flash cards or by asking questions such as:

- What is social website in Welsh?
- What is modern technology in Welsh?

Step 1

To do the activity on the card, learners must consider six different situations and then give advice. Here are some useful sentences and questions for you:

- I want you to read the situations one at a time.
- Is this situation dangerous? Why?
- What should this person do?
- Should he/she say where the swimming pool is?

Step 2

Next, the learners must prepare an information leaflet to give advice to 11 year old learners. Before starting to write, learners should have an opportunity to prepare in a group and to make notes on a mind map. Here are some useful sentences and questions for you:

- What makes a good information leaflet?
- What are you going to say on the leaflet?
- Are you going to put pictures on the leaflet? Which pictures?
- Are graphics needed?
- Are you going to write about social websites?
- Are you going to say something about smart phones?

Then, give the learners an opportunity to prepare their leaflets.

At the end of the lesson, you may want to ask the learners to look at one another's leaflets. They should evaluate the work by referring back to what makes a good information leaflet. How about asking them what they would do differently next time?

Remember to end the lesson appropriately.

Diwylliant

Ymadroddion allweddol

Cymraeg	English
Beth sy yn y llun yma?	What's in this picture?
Disgrifiwch y llun.	Describe the picture.
Beth ydy hwn?	What is this?
Pa fwyd sy yn y lluniau?	What foods are in the pictures?
Disgrifiwch y dillad yn y llun yma.	Describe the clothes in this picture.
Beth sy'n digwydd yma?	What's happening here?
Beth ydy enw'r blodyn yma?	What's this flower called?
Beth maen nhw'n ei fwyta yn Sbaen?	What do they eat in Spain?
Beth ydy blodyn cenedlaethol Lloegr?	What is the national flower of England?
Ydyn nhw'n chwarae rygbi yn yr Almaen?	Do they play rugby in Germany?
Pa gemau maen nhw'n chwarae yn Ffrainc?	What games do they play in France?
Ym mha wlad maen nhw'n dathlu La Tomatina?	In which country do they celebrate La Tomatina?
Oes dathliadau arbennig yn Japan?	Are there special celebrations in Japan?
Oes gwyliau arbennig yn Iwerddon?	Are there special festivals in Ireland?
Disgrifiwch ddillad cenedlaethol Sbaen.	Describe the national dress of Spain.



Culture

Step 1 - Wales

Describe the pictures. Why are these things important to the Welsh people?

Step 2 - Other countries

What makes other countries special?

Here are some ideas for you.

- food
- flowers
- games
- celebrations
- special holidays
- clothes.

Which country's traditions do you like best? Why?

Prepare a leaflet to show what is special about your favourite country.

Beth sy'n arbennig am y Cymry?

Mae lluniau ar y cerdyn ond os ydych chi eisiau gallwch ddewis eich lluniau eich hunain.

Nod y wers

Nod y wers ydy:

- trafod traddodiadau gwahanol wledydd
- deall bod traddodiadau'n bwysig a'u bod yn amrywio o wlad i wlad
- dysgu am draddodiadau gwledydd eraill
- gwerthfawrogi traddodiadau pobl eraill
- defnyddio'r Gymraeg.

Cyflwyniad

Adolygwch y termau y bydd y dysgwyr yn eu defnyddio. Rydych chi'n gallu gwneud hyn drwy ddefnyddio cardiau fflach neu drwy ofyn cwestiynau fel:

- Beth ydy *leeks* yn Gymraeg?
- Beth ydy *to compete* yn Gymraeg?
- Beth ydy *Welsh cakes* yn Gymraeg?

Cam 1

I wneud y gweithgaredd ar y cerdyn, rhaid gofyn cwestiynau fel:

- Beth sy'n digwydd yn y llun yma?
- Beth maen nhw'n gwisgo yn y llun yma?
- Beth ydy'r Fari Lwyd?
- Beth ydy eisteddfod?
- Beth ydy bwyd traddodiadol Cymru?
- Pa wyliau sy gan y Cymry?

Cam 2

Nesaf, rhaid i'r dysgwyr drafod traddodiadau gwledydd eraill. Dyma rai brawddegau defnyddiol i chi:

- Dw i eisiau i chi feddwl beth sy'n gwneud gwledydd eraill yn arbennig.
- Meddyliwch am y pwyntiau ar y cerdyn.
- Trafodwch y pwyntiau ar y cerdyn yn eich grŵp.
- Dw i eisiau i chi wneud rhestr o'r syniadau.

Wedyn, gofynnwch i'r dysgwyr:

- Traddodiadau pa wlad ydych chi'n hoffi orau?

Gofynnwch iddyn nhw baratoi taflen wybodaeth i ddangos beth sy'n arbennig am y wlad o'u dewis.

Cofiwch gloi'r wers yn briodol.

What's special about the Welsh people?

There are pictures on the card but if you prefer, you may choose your own pictures.

The aim of the lesson

The aim of the lesson is to:

- discuss the traditions of different countries
- understand that traditions are important and that they vary from country to country
- learn about the traditions of other countries
- appreciate the traditions of other people
- use the Welsh language.

Introduction

Revise the terms that the learners will be using. You can do this by using flash cards or by asking questions such as:

- What is *leeks* in Welsh?
- What is *to compete* in Welsh?
- What is *Welsh cakes* in Welsh?

Step 1

To do the activity on the card, you must ask questions such as:

- What's happening in this picture?
- What are they wearing in this picture?
- What is the Fari Lwyd?
- What is an eisteddfod?
- What is the traditional food of Wales?
- Which celebrations do the Welsh people have?

Step 2

Next, the learners must discuss the traditions of other countries. Here are some useful sentences for you:

- I want you to think about what makes other countries special.
- Think about the points on the card.
- Discuss the points on the card in your group.
- I want you to make a list of the ideas.

Then ask the learners:

- Which country's traditions do you like best?

Ask them to prepare an information leaflet to show what is special about the country of their choice.

Remember to end the lesson appropriately.

Ymadroddion allweddol

Cymraeg	English
Beth ydy effaith y dŵr?	<i>What effect does the water have?</i>
Mae'r dŵr yn difetha ...	<i>The water ruins ...</i>
Mae'r dŵr yn achosi ...	<i>The water causes ...</i>
Sut mae pobl yn teimlo?	<i>How do people feel?</i>
Pam mae llifogydd yn beryglus?	<i>Why are floods dangerous?</i>
Mae llifogydd yn beryglus achos ...	<i>Floods are dangerous because ...</i>
Sut mae'r Cyngor yn gallu helpu?	<i>How can the Council help?</i>
Mae'r Cyngor yn gallu rhoi ...	<i>The Council can give ...</i>
glanhau draeniau	<i>to clean drains</i>
rhybudd llifogydd	<i>flood warning</i>
stopio'r afon i orlifo	<i>to stop the river from overflowing</i>



Floods

Step 1 - Effect


Floods happen often. Think about the effects of floods.

have to move somewhere else to live – waiting for the house to dry out	loss of property, e.g. cars, farm animals	illness	loss of electricity and gas supplies
water in the houses destroys carpets and furniture	bridges destroyed – difficult to move from place to place	no fresh water	tension in the family affects the school work of children


In your group discuss the effects of floods. Then put the examples in rank order. Start with the worst effect. Use a diamond ranking chart if you wish.

Step 2 – Why do floods happen?

But why do floods happen? In your group make a list of the reasons.



But what can the Council do to help? In your group make a list of the things you want the Council to do. Here are some ideas for you.



Llifogydd

Mae lluniau ar y cerdyn ond os ydych chi eisiau gallwch ddewis eich lluniau eich hunain.

Nod y wers

Nod y wers ydy:

- trafod effaith llifogydd
- dod i benderfyniad pa effaith ydy'r gwaethaf
- trafod pam mae llifogydd yn digwydd
- trafod beth gall y Cyngor wneud i helpu
- defnyddio'r Gymraeg.

Cyflwyniad

Adolygwch y termau y bydd y dysgwyr yn eu defnyddio. Rydych chi'n gallu gwneud hyn drwy ddefnyddio cardiau fflach neu drwy ofyn cwestiynau fel:

- Beth ydy *floods* yn Gymraeg?
- Beth ydy *to destroy* yn Gymraeg?
- Beth ydy *illness* yn Gymraeg?

Cam 1

I wneud y gweithgaredd ar y cerdyn, rhaid gofyn cwestiynau fel:

- Beth ydy effaith y llifogydd ar y teulu?
- Beth ydy effaith y llifogydd ar blant?
- Beth ydy'r peryglon?
- Beth ydy'r effaith ar fusnes?
- Sut ydych chi'n teimlo pan rydych chi'n edrych ar y lluniau?

Cam 2

Nesaf, rhaid i'r dysgwyr drafod pam mae llifogydd yn digwydd. Dyma rai brawddegau defnyddiol i chi:

- Dw i eisiau i chi feddwl pam mae llifogydd yn digwydd.
- Dw i eisiau i chi wneud rhestr o'r syniadau.
- Dyma rai syniadau i chi:
 - Ydy'r afon yn gorlifo?
 - Oes problem gyda'r draenau? Beth?
 - Beth am y llanw?
 - Oes angen glanhau? Beth? Pam?

Wedyn, gofynnwch i'r dysgwyr:

- Beth mae'r Cyngor yn gallu ei wneud i helpu?
- Oes angen mwy o fagiau tywod?
- Oes angen rhybudd llifogydd?
- Oes angen i'r Cyngor lanhau? Beth?

Cofiwch gloi'r wers yn briodol.

Floods

There are pictures on the card but if you prefer you may choose your own pictures.

The aim of the lesson

The aim of the lesson is to:

- discuss the effects of floods
- decide which effect is the worst
- discuss why floods happen
- discuss what the Council can do to help
- use Welsh.

Introduction

Revise the terms that the learners will be using. You can do this by using flash cards or by asking questions such as:

- What is floods in Welsh?
- What is to destroy in Welsh?
- What is illness in Welsh?

Step 1

To do the activity on the card, you must ask questions such as:

- What is the effect of the floods on the family?
- What is the effect of the floods on children?
- What are the dangers?
- What is the effect on business?
- How do you feel when you look at the pictures?

Step 2

Next, the learners must discuss why floods happen. Here are some useful sentences for you:

- I want you to think why floods happen.
- I want you to make a list of the ideas.
- Here are some ideas for you:
 - Does the river overflow?
 - Is there a problem with the drains? What?
 - What about the tide?
 - Is there any need for cleaning? When? Why?

Then, ask the learners:

- What can the Council do to help?
- Is there a need for more sandbags?
- Is a flood warning needed?
- Does the Council need to clean up? What?

Remember to end the lesson appropriately.

Addysg gorfforol

Ymadroddion allweddol cyffredinol

Bydd athrawon yn gallu defnyddio'r termau a'r ymadroddion isod, lle bo'n addas, yn ystod eu gwersi ymarferol.

Teachers will be able to use the terms and phrases below, as appropriate, during their practical lessons.

Cymraeg	English
gweithgareddau	activities
athletau	athletics
criced	cricket
dros y clwydi	hurdles
gemau tîm	team games
naid hir	long jump
naid uchel	high jump
pêl-droed	football
pêl-rwyd	netball
rownderi	rounders
rygbi	rugby
rhedeg	running
taflu'r ddisgen	throwing the discuss
taflu'r waywffon	throwing the javelin
tennis	tennis
traws gwlad	cross country

safleoedd	positions
amddiffynnwr/amddiffynwyr	defender/s
blaenwr/blaenwyr	forward/s
cefnwr/cefnwyr	back/s
golwr	goalkeeper

araf	slow
cyflym	fast
chwaraewr/chwaraewyr	player/s
dilyniant	sequence
ffitrwydd	fitness
nofiwr	swimmer
raced	racket
rhedwr	runner
sgôr	score
yn erbyn	against

berfau	verbs
batio	to bat
beicio	to cycle
cadw'n heini	to keep fit
colli	to lose
chwarae yn erbyn	to play against
dal	to catch
ennill	to win
loncian	to jog
nofio	to swim
sgorio	to score
ymestyn	to stretch

berf	gorchymyn	verb	command
bowlio	Bowliwch	to bowl	Bowl
cicio	Ciciwch	to kick	Kick
cynhesu	Cynheswch	to warm up	Warm up
dal	Daliwch	to catch	Catch
dringo	Dringwch	to climb	Climb
gwisgo	Gwisgwch	to get dressed/to wear	Get dressed/Wear
newid	Newidiwch	to change/to get changed	Change/Get changed
pasio	Pasiwch	to pass	Pass
rhannu	Rhannwch	to share/to split/to divide	Share/Split/Divide
rhedeg	Rhedwch	to run	Run

Addysg gorfforol

Iechyd a ffitrwydd

Ymadroddion allweddol

Cymraeg	English
cadw'n heini	to keep fit
codi pwysau	weight lifting
cryfder	strength
dawnsio	to dance
gymnasteg	gymnastics
rhedeg	to run
ymarfer cylchol	circuit training




English translation of the main points on the card

Health and fitness

Step 1 - Activities

What are these activities?

In your group talk about how each one of these activities can help fitness and health. Here are some phrases to help you.



Step 2 - How fit are you?

In your group, make a list of the things you do to keep fit and healthy. Then discuss how fit you are.

Do some circuit training to measure your fitness. Your tutor will explain the activities in each station.

Work with your partner. Partner one will keep time, count and keep the score and partner two will do the exercises. Then change roles. Before moving on to the next station, fill in your fitness card. Remember to give a mark from 1 (poor) to 10 (excellent) for your ability.

At the end of the circuit training discuss your fitness with your partner. Set targets to improve your fitness.

Mae lluniau ar y cerdyn ond os ydych chi eisiau gallwch ddewis eich lluniau eich hunain i gynrychioli gweithgareddau eraill.

Nod y wers

Nod y wers ydy:

- trafod sut mae gwahanol weithgareddau'n gallu gwella ffitrwydd
- trafod pa mor ffit rydych chi
- mesur eich ffitrwydd
- gosod targedau i wella ffitrwydd
- defnyddio geirfa Gymraeg.

Cyflwyniad

Adolygwch y termau y bydd y dysgwyr yn eu defnyddio. Rydych chi'n gallu gwneud hyn drwy ddefnyddio cardiau fflach neu drwy ofyn cwestiynau fel:

- Beth ydy *muscles* yn Gymraeg?
- Beth ydy *heart* yn Gymraeg?
- Beth ydy *circuit training* yn Gymraeg?

Cam 1

I wneud y gweithgaredd ar y cerdyn, rhaid gofyn cwestiynau fel:

- Beth ydy'r gweithgareddau yma?
- Beth ydy manteision ymarfer?
- Pam mae dawnsio'n dda i chi?
- Pa weithgareddau sy'n gwella ystwythder?
- Pa weithgareddau sy'n gwella cryfder?
- Pa weithgareddau ydych chi'n hoffi gwneud? Pam?

Cam 2

Nesaf, rhaid i'r dysgwyr restru'r gweithgareddau maen nhw'n gwneud a thrafod eu ffitrwydd. Dyma rai brawddegau defnyddiol i chi:

- Dw i eisiau i chi wneud rhestr o'r gweithgareddau rydych chi'n gwneud.
- Gweithiwch gyda'ch partner.
- Llenwch y cerdyn ffitrwydd.
- Beth ydy sgôr eich partner?
- Pa mor ffit ydych chi?
- Ydych chi wedi gosod targedau? Beth ydyn nhw?
- Sut rydych chi'n mynd i gyrraedd y targed? Beth fydd rhaid i chi wneud?

Cofiwch gloi'r wers yn briodol.

There are pictures on the card, but if you prefer you may choose your own pictures to represent other activities.

The aim of the lesson

The aim of the lesson is to:

- discuss how different activities can improve fitness
- discuss how fit you are
- measure your fitness
- set targets to improve fitness
- use Welsh vocabulary.

Introduction

Revise the terms that the learners will be using. You can do this by using flash cards or by asking questions such as:

- What are muscles in Welsh?
- What is heart in Welsh?
- What is circuit training in Welsh?

Step 1

To do the activity on the card you must ask questions such as:

- What are these activities?
- What are the advantages of exercise?
- Why is dancing good for you?
- Which activities improve flexibility?
- Which activities improve strength?
- Which activities do you like doing? Why?

Step 2

Next, the learners must list the activities they do and discuss fitness. Here are some useful sentences for you:

- I want you to make a list of the activities you do.
- Work with your partner.
- Fill in the fitness card.
- What is your partner's score?
- How fit are you?
- Have you set targets? What are they?
- How are you going to achieve your target? What will you have to do?

Remember to end the lesson appropriately.

Addysg grefyddol

Crefyddau'r byd

Ymadroddion allweddol

Cymraeg	English
croes	cross
gleiniau gweddïo	prayer beads
kirpan	kirpan
Lakshmi	Lakshmi
lamp Diwali	Diwali lamp
olwyn weddïo	prayer wheel
plât Seder	Seder plate
twrban	turban



English translation of the main points on the card

Religions of the world

Step 1 - Which religion?

Label the pictures. What's the religion?

Step 2 – What (religion) are these people?

1. I pray three times a day during the week. (Christian or Jew)
2. I read the Guru Granth Sahib. (Hindu or Sikh)
3. We break glass in a wedding ceremony. (Christian or Jew)
4. We don't eat beef. (Hindu or Sikh)
5. I wash before praying. (Christian or Muslim)
6. I've learnt to say the Qur'an. (Muslim or Jew)
7. We celebrate the Pentecost. (Christian or Muslim)
8. We use music when we pray. (Christian or Muslim)
9. We don't drink alcohol. (Muslim or Jew)
10. We celebrate Rama's birthday. (Hindu or Sikh)
11. I worship Jesus, the son of God. (Christian or Muslim)
12. I don't eat during Ramadan. (Christian or Muslim)
13. The five K are important to me. (Hindu or Sikh)
14. I've learnt to read the Torah. (Muslim or Jew)
15. We celebrate the birthday of Guru Nanak. (Hindu or Sikh)

Pa grefydd?

Mae lluniau ar y cerdyn ond os ydych chi eisiau gallwch ddewis eich lluniau eich hunain.

Nod y wers

Nod y wers ydy:

- trafod yr arteffactau sy'n perthyn i wahanol grefyddau
- trafod arferion gwahanol grefyddau
- defnyddio termau addysg grefyddol yn Gymraeg.

Cyflwyniad

Adolygwch y termau y bydd y dysgwyr yn eu defnyddio. Rydych chi'n gallu gwneud hyn drwy ddefnyddio cardiau fflach neu drwy ofyn cwestiynau fel:

- Beth ydy *prayer wheel* yn Gymraeg?
- Beth ydy *prayer beads* yn Gymraeg?
- Beth ydy *to pray* yn Gymraeg?

Cam 1

I wneud y gweithgaredd ar y cerdyn, rhaid gofyn cwestiynau fel:

- Beth sy yn y llun yma?
- Beth ydy hwn?
- Pa grefydd sy'n defnyddio ...?

Cam 2

Nesaf, rhaid i'r dysgwyr ddarllen y brawddegau a dweud pa grefydd sy'n cael ei disgrifio. Dyma rai brawddegau defnyddiol i chi:

- Dw i eisiau i chi ddarllen beth mae'r bobl yn ei ddweud.
- Beth ydy pob un – Cristion, Iddew, Mwslim, Hindŵ neu Sikh?

Wedyn, gofynnwch i'r dysgwyr gymharu'r atebion. Gwnewch yn siwr bod y dysgwyr yn cofnodi'r atebion cywir.

Cofiwch gloi'r wers yn briodol.

Which religion?

There are pictures on the card but if you prefer you may choose your own pictures.

The aim of the lesson

The aim of the lesson is to:

- discuss the artefacts that belong to different religions
- discuss the rituals of different religions
- use religious education terms in Welsh.

Introduction

Revise the terms that the learners will be using. You can do this by using flash cards or by asking questions such as:

- What is *prayer wheel* in Welsh?
- What is *prayer beads* in Welsh?
- What is *to pray* in Welsh?

Step 1

To do the activity on the card you must ask questions such as:

- What's in this picture?
- What is this?
- Which religion uses ...?

Step 2

Next, the learners must read the sentences and say which religion is being described. Here are some useful sentences for you:

- I want you to read what the people are saying.
- What is each one – Christian, Jew, Muslim, Hindu or Sikh?

Then ask the learners to compare answers. Make sure that learners record the correct answers.

Remember to end the lesson appropriately.

Addysg grefyddol

Cymharu crefyddau

Ymadroddion allweddol

Cymraeg	English
Bwdhaeth	Buddhism
crefydd	religion
Cristnogaeth	Christianity
Hindŵaeth	Hinduism
Iddewiaeth	Judaism
Sikhiaeth	Sikhism



English translation of the main points on the card

Comparing religions

Step 1 – Who worships where?

There are many religions in the world. They have many different customs.

Do you know who worships in these places?

Do you know who reads these books?

Step 2 – Comparing religions

Work in your group to make a list of world religions. Which group has the longest list? Choose five religions and write their names in the first line of the grid.

religion					
where they worship					
when they worship					
gods					
holy festivals					
holy days					
opinion on alcohol					
role of women					

What similarities and differences are there? Work in your group to prepare a chart to show the similarities and differences.

Nod y wers

Nod y wers ydy:

- trafod ble mae gwahanol bobl yn addoli
- trafod llyfrau sanctaidd gwahanol bobl
- codi ymwybyddiaeth o grefyddau'r byd
- codi ymwybyddiaeth o arferion gwahanol grefyddau
- cymharu gwahanol grefyddau
- trafod materion crefyddol yn Gymraeg.

Cyflwyniad

